**Y Pwyllgor Busnes**
—
**Y Pwyllgor Busnes**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
Senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r
Cyfansoddiad

24 Mehefin 2024

**Y broses cydsyniad deddfwriaethol**

Annwyl Mike,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 5 Mehefin yn amlinellu pryderon ac argymhellion pellach eich Pwyllgor ynghylch Rheol Sefydlog 29 a'r broses cydsyniad deddfwriaethol. Buom yn trafod y llythyr yn ein cyfarfod ar 11 Mehefin a chydnabod y gwaith sylweddol y mae eich Pwyllgor wedi'i wneud yn y maes hwn yn ystod y Senedd bresennol.

Rwyf eisoes wedi cadarnhau bod gwaith presennol y Pwyllgor Busnes ar gydsyniad deddfwriaethol yn cynnwys ystyriaeth benodol o Reol Sefydlog 29.1 a'r profion sy'n cael eu cymhwyso ar hyn o bryd gan y Senedd, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wrth benderfynu a oes angen cydsyniad y Senedd ar ddarpariaethau Bil.

Cytunwyd i barhau â'n gwaith presennol ar Reol Sefydlog 29.1 o ystyried y cyfle y mae'n ei gyflwyno i gysoni'r ddealltwriaeth ynghylch a oes angen cydsyniad y Senedd ar ddarpariaethau Bil, ac i wneud hynny mewn amserlen fyrrach nag y byddai adolygiad gweithdrefnol llawn o'r broses yn ei ganiatáu. Ein bwriad o hyd yw ystyried y mater hwn cyn toriad yr haf.

Rydym yn ddiolchgar i chi am dynnu ein sylw at adroddiadau diweddar eich Pwyllgor ar y Bil Rhentwyr (Diwygio) a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (DPDI). Rydym yn cydnabod bod y materion a godir yn eich argymhellion yn tynnu sylw at y posibilrwydd y bydd angen adolygiad llawn o'r broses cydsyniad deddfwriaethol a Rheol Sefydlog 29.

O ystyried arbenigedd eich Pwyllgor a'ch cyfranogiad manwl yn y maes hwn, yn ogystal â'r angen i ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid y tu mewn i'r Senedd a'r tu allan

iddi, rydym o'r farn y byddech mewn sefyllfa dda i arwain unrhyw ystyriaeth fanwl o'r ffordd y mae'r broses cydsyniad deddfwriaethol a Rheol Sefydlog 29 yn gweithredu ar hyn o bryd. Yna, rôl y Pwyllgor Busnes fyddai ystyried unrhyw newidiadau i'r Rheolau Sefydlog a allai gael eu cynnig o ganlyniad i'r gwaith hwnnw, a bwrw ymlaen â'r newidiadau hynny. Cytunwyd y dylwn ymateb i ofyn i chi ystyried a fyddai gan eich Pwyllgor y modd i ymgymryd â'r gwaith hwnnw.

Diolch unwaith eto am eich dyfalbarhad a'ch cydweithrediad wrth ystyried y materion pwysig hyn.

Cofion cynnes

**Y Gwir Anrh. Elin Jones AS**

Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.